# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 14EG MAWRTH, 2023**

Lleoliad

**Zoom**

(Am Fynediad i'r Cyhoedd, Cysylltwch ac Einir Rh Davies)

Pwynt Cyswllt

**Einir Davies**

**01286 679878**

**EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 6 Mawrth 2023)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Hefin Underwood
Elin Hywel
Richard Glyn Roberts

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Jenny Moss | Cynrychioli Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli |
| Michael Sol Owen | Cynrychioli Plas Heli |
| Wil Partington | Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli |
| Alwyn Roberts | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |
| Cyng. Mike Parry | Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli |
| Ifor Hughes | Cynrychioli Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch |

### Sylwedyddion:

Desmond George
David Williams

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2022 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL A GWEITHREDOL YR HARBWR** 10 - 18

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli

**6. TREFNIADAU Y DYFODOL**

I drafod Trefniadau y Pwyllgor i'r Dyfodol

**7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 10 Hydref 2023 (yn ddarostynedig ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn).

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 18/10/22

**PRESENOLDEB:**

**Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorydd Hefin Underwood, Y Cynghorydd Elin Hywel

**Aelodau Cyfetholedig:** Stephen Tudor (Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli), Michael Sol Owen (Cynrychioli Plas Heli), Wil Partington (Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), Alwyn Roberts (Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli), Jenny Moss (Cynrychioli Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli), Michael Parry (Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli)

**Eraill yn bresennol:** Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Gerwyn Owen (Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli), Einir Rh Davies ac Eirian Roberts (Gwasanaethau Democratiaeth) a Bethan M Evans, (Cyfieithydd)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Hefin Underwood yn Gadeirydd y cyfarfod hwn am y cyfnod 2022/23

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Elin Hywel yn Is-Gadeirydd y cyfarfod hwn am y cyfnod 2022/23

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Richard G Roberts a'r Cynghorydd Nia Jeffreys

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS - SAFLE AMBIWLANS AWYR DINAS DINLLE

Daeth Y Cynghorydd Elin Hywel a mater brys i sylw y Pwyllgor, gyda chaniatâd y Cadeirydd, ynglŷn â dyfodol safle Ambiwlans Awyr Dinas Dinlle. Nododd pwysigrwydd ymateb i'r gyfundrefn ymgynghorol fel Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli.

**PENDERFYNIAD**

Yn sgil pryderon am faterion yn ymwneud a Safle Ambiwlans Awyr Dinas Dinlle, y dylid anfon llythyr o bryder yn enw'r Pwyllgor.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022, fel rhai cywir. Gofynnodd Jenny Moss i'r rhaglen adlewyrchu yn glir ei bod yn Cynrychioli Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli ar y Pwyllgor.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL A GWEITHREDOL YR HARBWR A HAFAN

Cyflwynodd y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli ei hun yn ffurfiol i'r Pwyllgor gan gyfeirio at y papur oedd yn rhoi diweddariad ar Faterion Rheolaethol a Gweithredol yr Harbwr a Hafan. Ehangodd ar rai materion fel a ganlyn

1.1 Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

Cadarnhawyd bod y Swyddog Harbyrau yn edrych mewn manylder ar y Cod Diogelwch. O ran y Deilydd Dyletswydd, cadarnhawyd ei fod nawr wedi ei drosglwyddo i'r Cynghorydd Nia Jeffreys fel y deilydd portffolio Economi a Chymuned a'i bod eisoes wedi ymweld.
Cadarnhawyd bod cwynion ynglŷn â diogelwch wedi dod i law, yn cynnwys

- Dim Harbwr Feistr ym Mhwllheli
- Dim rheolaeth o fadau personol, a'r pryder y bydd rhywun yn cael niwed

Mewn ymateb, nodwyd bod newidiadau staffio wedi eu gwneud gan gynnwys apwyntio Harbwr Feistr Cynorthwyol, a bod y tîm yn gyflawn ar hyn o bryd. Hefyd cadarnhawyd fod Is-Reolwr Harbwr, Will Williams, yn Harbwr Feistr Pwllheli

Cadarnhawyd bod y Meistr Hafan ac Angori wedi bod allan i geisio arafu y badau personol a bod gwaith i roi uwch-seinydd ar adeilad yr harbwr feistr, a fydd yn barod erbyn tymor yr haf blwyddyn nesaf. Cyfeiriwyd at y gwaith o hyrwyddo a hysbysu y cyflymder a chadarnhawyd bod cwch yr Heddlu wedi bod ar y dŵr am bythefnos.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r bwriad i roi rhifau adnabod ar fadau personol, cadarnhawyd eu bod i fod i gael rhifau erbyn hyn, ac er tegwch bod y niferoedd helaethaf gyda. Cadarnhawyd bod y Masnachwyr Morwrol yn rhannu y neges ddiogelwch ond bod rheoli mynediad yn gallu bod yn broblemus.

Cadarnhawyd bod camerâu cylch cyfyng wedi eu gosod ar y llithrfa a bod gwaith monitro y Cwmnïau Parcio a Lansio yn digwydd er mwyn ceisio sicrhau diogelwch i bawb. Nodwyd bod y camera yn pigo i fyny rhifau, yn enwedig wrth y cei tanwydd, ac yn ychwanegol bod pobl yn rhannu fideos a lluniau personol gyda y Cyngor. Cadarnhawyd bod y camerâu wedi eu gosod o geg y Marina er mwyn ceisio cael llygaid ym mhobman.

Cwestiynwyd a oes erlyniad wedi bod yn dilyn rhai o'r pethau gwirion mae pobl yn ei wneud, ond nodwyd er bod damweiniau wedi bod nad oedd erlyniadau wedi dod o hyn, yn bennaf gan nad oedd badau personol yn cael eu cynnwys fel llongau. Nodwyd nad oes modd rheoli yr arfordir i gyd yn anffodus.

**1.2 Carthu'r Sianel**

Cadarnhawyd bod y gwaith hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn ym mis Mai, ac y bydd yr un ymdrech yn cael ei roi ar ddechrau 2023, yr amseriad penodol yn ddibynnol ar amseru y dŵr isel. Cadarnhawyd bod trafodaeth wedi digwydd gyda Dŵr Cymru ynglŷn â phrynu neu brydles ar y tir. Her arall yw gwagio basn y marina, ond adroddwyd bod gwaith ar y cyd gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd ar y gweill i weithio ar raglen tymor hir, er y nifer heriau.

Holiwyd am dystiolaeth bod y grwyn newydd yn gwneud ei waith a chadarnhawyd bod yr arolwg rheolaidd sydd yn cael eu cynnal yn dangos bod y geg yn mynd yn llai a llai. Cwestiynwyd pam na fyddai modd ei bwmpio i ochr Glan y Don neu hyd yn oed gofyn i Dwr Cymru werthu y darn tir dan ystyriaeth? Cadarnhawyd bod nifer o opsiynau o dan ystyriaeth, yn enwedig gan fod y strategaeth wedi rhedeg ei hoes, gan gynnwys edrych ar y brydles tir gyda Dŵr Cymru.

Cadarnhawyd y byddai pwmpio dros y wal yn creu pryder i'r Gwasanaeth Bad Achub, yn enwedig petai yn adeiladu i fyny ac yn caledu, ond cadarnhawyd y byddai unrhyw drafodaeth o'r math yn cynnwys y Bad Achub.

Cwestiynwyd y dyddiad pryd fydd y marina yn cael ei garthu (o dan y pontŵn) a chadarnhawyd fod y gwaith yn mynd allan i dendr ddechrau 2022, a'r gobaith oedd Gaeaf 2022, ond wrth gwrs bydd yn rhaid gwneud y gwaith gwagio y lagŵn yn iawn cyn hynny.

**1.3 Materion Ariannol**

Cyfeiriwyd at y ffigyrau oedd eisoes wedi eu rhannu oedd yn nodi gorwariant o £200,000 mewn taliadau trydan yn unig, a bod yr incwm yn gryf gyda sefyllfa lawn.  Cyfeiriwyd at y gwelliannau oedd wedi eu gwneud o gwmpas Hafan

Nodwyd bod tanwariant wedi digwydd o ran materion staffio, gyda llai o staff wedi eu cyflogi dros yr Haf.

Cyfeiriwyd at y gwariant ar gei tanwydd newydd yn y flwyddyn newydd.

Holiwyd tybed a fyddai modd neilltuo rywfaint o arian ar gyfer y dyfodol (e.e. mae y pontwns yn dod i ddiwedd eu hoes) yn hytrach na bod angen arian gan y Cyngor?  Cyfeiriwyd at y Rhaglen Buddsoddi, dan arweiniad y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned, er mwyn sicrhau buddsoddiad hirdymor.

Adroddodd Cynrychiolydd Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli ei bod wedi derbyn adborth positif gan Aelodau ynglŷn â'r sustem diogelwch newydd, rac beics a'r teledu cylch cyfyng ar y llithrfa.

Atgyfnerthodd y Cynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli y sylwadau gan nodi bod y camerâu cylch cyfyng yn wych, a'r sustem uwch seinydd, ac y byddai cael y camerâu cylch cyfyng ar y llithrfa yn dda, a nodwyd y byddai modd edrych i mewn i hyn.

Nodwyd nad oedd wastad yn bosib lletya cychod ymwelwr oedd angen 5 i 6 troedfedd o ddyfnder a holiwyd a fyddai modd edrych i mewn i'r posibilrwydd o angorfa ddal, fel modd o ddod ac incwm i mewn gan fod 3 pentwr pob ochr, fyddai o bosib yn ddigonol i 20 cwch.  Nodwyd efallai y byddai modd ystyried hwn ar gyfer buddsoddiad tymor hir.

Nodwyd bod rhai materion esthetig angen sylw e.e. y bin baw cwn a chadarnhawyd fod y mater wedi ei ddwyn i sylw i Swyddog priodol. Chwyn o gwmpas yr harbwr. Diffyg addasrwydd mynediad i draeth Marian y De gan nad yw yn ymarferol gyda phlant a chadarnhawyd bod rhaglen waith ar gyfer y gaeaf i edrych ar hwn.

Atgyfnerthwyd yr awgrym o neilltuo arian, gan fod yr Hafan yn llawn ac wedi gwneud elw da.

**1.4 Ffioedd a Thaliadau 2023/24**

Cadarnhaodd y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr bod cyfarfod ar y gweill i edrych ar y sefyllfa ariannol, yn benodol y sefyllfa chwyddiant.  Er nad oedd ffigyrau pendant ar gael, nid oedd y sefyllfa yn edrych yn addawol iawn.  Yn sgil hyn, cyfeiriwyd at yr angen am ddarn o waith i edrych ar bŵer trydan, neu rywbeth cynaliadwy er mwyn gostwng y costau trydan.  Cadarnhawyd y byddai'r Rheolwr yn rhannu y ffigyrau pan fyddent ar gael.

Atgoffodd y Cynrychiolydd Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli pawb na fu codiad yn y ffi y flwyddyn ddiwethaf, a bod llawer o gychod ar werth yn y Marina ar hyn o bryd.  Holodd tybed a fyddai modd cael y wybodaeth am y codiad mewn ffioedd cyn gynted â phosib, ynghyd a holi am fonws ffyddlondeb?

Cadarnhaodd y Rheolwr bod gwaith ar y gweill, ond bod rhoi gostyngiad i un grŵp yn effeithio grŵp arall, ond cadarnhaodd na fydd dim yn ei le y tymor hwn. O ran y costau trydan, atgoffwyd y Pwyllgor bod pob cwch, beth bynnag ei maint, yn talu 10% at y trydan a chwestiynwyd a yw hyn yn deg o ran natur wahanol faint gwahanol gychod?

O ran gweld buddsoddiadau mawr, cyfeiriwyd at y Cynllun Strategol, gan nodi bod Prosiect Penodol i Dref Pwllheli ble mae trafodaethau ar y gweill. Ehangodd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned ar y gwaith cychwynnol sydd ar y gweill i adnabod cronfeydd o San Steffan, ond na fyddant yr un maint o fuddsoddiad ac unrhyw fuddsoddiad blaenorol o Ewrop. Nododd y bwriad i edrych beth sydd ar gael, ond na fydd yn hawdd.

1.5 **Eitemau Gweithredol**

Cyfeiriodd y Rheolwr Masnachol at faterion mordwyo, cei tanwydd 2023 a llithrfa Hafan, gan gadarnhau bod gwaith wedi ei wneud ar y llain galed ble roedd cychod yn cael eu storio.

Nododd bod yr ystadegau yn bositif iawn gyda 100% o'r angorfeydd wedi eu llenwi a 10 ar y rhestr aros. Nodwyd bod gwaith ar y gweill i chwynnu y rhestrau aros, ond bod gobaith y byddent yn llawn eto flwyddyn nesaf.

Cyfeiriwyd at y Cynllun Strategol, gan nodi bod tri wedi datgan diddordeb yn y briff, gyda'r gogwydd masnachol. Nododd Aelodau'r Pwyllgor ei bod yn bwysig adeiladu ar y Cynllun Strategol, gan ei bod yn edrych y bydd y Marina am gael blwyddyn neu ddwy dda. Nodwyd yr angen i gael Cynllun Strategol yn barod, wedi ei gostio, fel byddai modd symud ymlaen.

O ran cadw yr arian sydd yn cael ei gynhyrchu yma i'w wario yma, cadarnhawyd bod sgwrs wedi cymryd lle a bod arian y gronfa am y tair blynedd nesaf wedi ei glustnodi.

**PENDERFYNWYD** :

Nodi a derbyn yr adroddiad

## 8. ETHOL SYLWEDYDDION

**PENDERFYNWYD :**

Etholwyd Stephen Tudor yn Sylwedydd ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Porthmadog.

## 9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 14eg Mawrth, 2023 am 6pm. Nododd y Pwyllgor ei ddymuniad i gyfarfod wyneb yn wyneb pan fydd y Cyngor yn agor hyn allan i ragor o bwyllgorau.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 pm a daeth i ben am 7.25 pm.

**CADEIRYDD**

Elusen Ambiwlans Awyr CYMRU
WALES Air Ambulance Charity

Ambiwlans Awyr Cymru
Wales Air Ambulance
Tŷ Elusen
Ffordd Angel
Llanelli Gate
Dafen
Llanelli
SA14 8LQ

Ffôn/Tel: 0300 0152 999
enquiries@walesairambulance.com

ER GWYBODAETH, YMATEB UNIAITH SAESNEG SYDD WEDI DOD I LAW.

Monday 19 December 2022

Councillor Hefin Underwood
Pwllheli Harbour Consultative Committee

Dear Councillor Underwood,

Thank you for your letter, dated 7 December, and for taking the time to write to me.

With regards to the service reconfiguration proposals, in-depth research and analysis has been conducted by our NHS medical partners, the Emergency Medical Retrieval and Transfer Service (EMRTS), which includes independent modelling. The resulting EMRTS Service Development Proposal has been presented to both Charity Trustees and the NHS Wales Emergency Ambulance Services Committee (which is made up of the Chief Executives of every Welsh health board and the Chief Executive of the Welsh Ambulance Service).

In summary, the proposal indicates that through a reconfiguration of the air ambulance service (revision of base locations, a change in operational hours, an enhancement of after-dark flying), Wales Air Ambulance could attend hundreds more life or limb-threatening emergencies every year and every county of Wales, including Gwynedd, would see an increase in the number of critically ill patients attended.

As the analysis has been conducted by EMRTS, the engagement process is aligned with NHS governance. The EMRTS Service Development Proposal is now subject to an independent process of scrutiny and public engagement, led by the Chief Ambulance Services Commissioner. I would strongly encourage you to engage with the Commissioner's process to gain a detailed understanding of the proposals and to ask any questions that you may have.

Wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr
Registered in England and Wales
Rhif Elusen/Charity Number: 1083645

www.ambiwlansawyrcymru.com
www.walesairambulance.com

Elusen | WALES

Ambiwlans Awyr Cymru
Wales Air Ambulance
Tŷ Elusen
›rdd Angel
anelli Gate
Dafen
Llanelli
SA14 8LQ

0 0152 999
lance.com

You can find out more via https://easc.nhs.wales/commissioning/emrts/sdp/ .

From the Charity's perspective, we continue to note the comments expressed to us by our supporters and this will inform our own response to the Commissioner's engagement process. Therefore, I thank you again for taking the time to write to us.

The support we receive from the people of Pwllheli is valuable to us. For that, I offer our grateful and eternal thanks, not just on behalf of our Charity but also those who are alive today thanks to your community.

As part of our new retail blueprint, we are looking at a future investment in Pwllheli through the location of a new Wales Air Ambulance retail facility. Is this something you would welcome in the town? If so, we would be happy to discuss this in more detail with you and take on board any advice that you have.

I sincerely hope that we are able to continue, and strengthen, our positive relationship with you and the community you represent.

Yours sincerely

Dr Sue Barnes
Chief Executive
Wales Air Ambulance Charity

Wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr
Registered in England and Wales
Rhif Elusen/Charity Number: 1083645

www.ambiwlansawyrcymru.com
www.walesairambulance.com

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli** |
| **DYDDIAD** | **14 Mawrth 2023** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli a Gweithredol yr Harbwr** |
| **AWDUR(ON)** | **Rheolwr Masnachol a Is-Rheolwr Hafan a Harbwr Pwllheli** |

**Cyflwyniad**

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod a ddaw i ben ar ddiwedd mis Chwefror 2023, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

Mae Pwyllgor Harbwr Pwllheli yn Bwyllgor Harbwr anstatudol, a sefydlwyd yn unol â chymeradwyaeth a chefnogaeth y Cyngor. Mae'r caniatâd yn darparu bod pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yn y rhaglen.

Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor bydd hi'n ofynnol i'r cynrychiolwyr o bob grŵp a sefydliad ddarparu tystiolaeth o'u cyfansoddiad i'r Cyngor ynghyd â llythyr o'u sefydliad yn cadarnhau enw eu cynrychiolydd. Nid yw'r uchod yn berthnasol i Gyngor Tref neu Gymuned.

**1.1 Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

Mae'r Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Côd yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Côd Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu a'i fod yn berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Pwllheli.

Mae'n flaenoriaeth gan Uwch Swyddog Harbyrau, ar y cyd a Rheolwr Gwasanaeth Morwrol newydd Bryn Pritchard Jones, sydd wedi cymryd drosodd o Barry Davies sy'n ymddeol mis yma, i diweddaru y Côd Diogelwch

**1.2 Carthu'r Sianel**

Mae'r carthu yn parhau i fod yn sialens, ac mae'r uned yn gweithio yn galed i darganfod datrysiad tymor hir i'r mater. Gan gweithio gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) mae na rhaglen wedi ei rhoi at ei gilydd i edrych ar phob posibilrwydd. Bydd adroddiad llafar ar gael ar y noson or diweddara.

Nodir fod y canlynol yn ei lle:

- Mae hanner y tywod, oddeutu 25,000 tunell, ar domen ger ceg y harbwr wedi ei werthu ar y farchnad agored, yn dilyn proses tendro ar Sell2Wales, i TG Aggregates, ac mae'r gwaith wedi cychwyn i symud y tywod cyn diwedd mis Mawrth, er mwyn peidio amharu ar y parc gwyliau.
- Mae carthu ceg y harbwr am ei wneud ar llanw isel yr wythnos 20fed o Fawrth ymlaen.
- Mae'r adroddiad bathymetric mwyaf diweddar o ceg yr harbwr, y sianel a basn wedi ei atodi gyda'r papurau cyfarfod yma. Bydd y uned, ar y cyd a'r ymgynghorwyr yn adolygu yr adroddiad er mwyn rhoi cynllun waith yn ei le.

**1.3 Materion Ariannol.**

Cyflwynir crynodeb bras o gyllideb yr Harbwr Allanol a Marina'r Hafan, a'r sefyllfa ariannol bresennol i'r aelodau yn y cyfarfod.

Yn ystod cyfnod yr Hydref a Gaeaf, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol i'r meysydd a ganlyn o waith: -

- Gwaith uwchraddio ar y compownd diogel, gan gynnwys pwyntiau trydan, dwr a goleuadau
- Gwaith cynnal a chadw gaeaf amrywiol yn cynnwys gwasanaethu, glanhau a gwirio'r pontynau.
- Pont cei tanwydd wedi ei rhoi yn ei le, er yn anffodus mae na dileu ar derbyn y cei tanwydd, gyda'r tebygrwydd i'r gwaith gael ei cwblhau ar ôl y pasg rŵan.
- Ail rac beiciau wedi ei lleoli yn y maes parcio. Efallai y cofiwch fod deiliad angorfa hirsefydlog, Mr Sykes 'My Helen' wedi marw'n ddiweddar. Tra bod ei gwch wedi dod o hyd i gartref newydd, roedd ganddo fe feic yma hefyd. Yn dilyn trafodaethau gyda'r teulu mae'r beic wedi'i roi i Beic Antur Bikes, sy'n rhan o'r elusen Antur Waunfawr, menter gymdeithasol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu yn eu cymuned eu hunain. Yn dilyn hynny, mae beic arall wedi cael ei roi yn garedig iddynt gan Mr Clarke ar Skye Blue.

**1.4 Ffioedd a Thaliadau 2023/24**

Mae ffioedd Hafan a Harwbr Pwllheli wedi ei rhyddau, ac ar gael ar ein gwefan https://www.hafanpwllheli.co.uk/welsh/prices/tariffs_one.html ac trwy ein llawlyfr sydd ar gael o'r dderbynfa.

Yn fras mae'r canlynol wedi gael effiath ar y prisiau:

- Prisiau Hafan wedi codi 7.86% yn unol a chwyddiant iw hadennill
- Prisiau Harbwr Pwllheli wedi codi 8.52% yn unol a chwyddiant iw hadennill. Y swm yn cyfartaledd o'r chwyddiant ar draws harbyrau y sir.
- Prisiau trydan wedi codi 149.6%

Yn unol a adolygiad ariannol Cyngor Gwynedd mi oedd rhaid adrannau cynnig arbedion/toriadau gwerth £6.4 miliwn er mwyn ceisio osgoi torri gwasanaethau lleol yn ystod 2023/24. Mae'r tri elfen canlynol wedi ei cymeradwyo ar gyfer cyllid Hafan a Harbwr:

- Cynyddu targed incwm tanwydd y Hafan
- Arbediad ar gyllidebau hanesyddol sydd tu hwnt i'r angen heddiw
- Ail strwythuro'r adnodd staffio, ni fydd Cymhorthydd Harbwr (tymhorol) yn gael ei benodi dros cyfnod yr Haf.

**1.5 Eitemau Gweithredol**

***Mordwyo*** - Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Pwllheli yn gweithio ac yn eu lle.  Nid oes unrhyw "Rybuddion i Forwyr" yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd.

***Ystadegau Harbwr/Hafan Blynyddol ac ati -*** Mae manylion ystadegau'r Hafan a'r Harbwr ar gyfer 2022/23 wedi'u cynnwys gyda'r adroddiad hwn. Mae'r nifer preswyl blynyddol wedi cynyddu'n fawr eleni, ac mae'r Hafan yn llawn. Mae'r 411 contract Hafan, a 42 contract Harbwr wedi ei yrru allan, ac mae'r tîm wrthi yn brysur yn cydnabod unrhyw newidiadau, rhai sy'n canslo. Bydd darlun cyflawn gennym yn mis Ebrill, ond tebygrwydd fydd y Hafan yn llawn eto y flwyddyn yma.

Debygol fydd canran angorfeydd yn y Harbwr yn gostwng oherwydd fod anghenion cwsmeriaid yn newid. Nifer wedi trosglwyddo i'r Hafan, proffil oed defnyddwyr, tra rhai eraill e.e. masnachwyr (pysgotwyr) wedi rhoi gorau iddi.

***Staffio –*** Clod mawr i'r tîm am y gwaith dros y flwyddyn diwethaf, ac hoffwn nodi canran boddhad cwsmeriaid yn y holiadur diweddar tuag at y staff gan PMBHA yn nodi 91% bodlonrwydd (Ardderchog neu Da iawn). Os yn ychwanegu Da i'r canran maent yn codi i 98%.

Bydd cyfnod y haf yn heriol i warchod y dwr dan oruchwyliaeth Harbwr Pwllheli oherwydd toriadau adroddwyd ynghynt.

***Badau personol -*** Er gwybodaeth mae deddfwriaeth newydd wedi ei basio yn San Steffan sydd yn rhoi pwerau ychwanegol ar defnyddwyr badau personol. Mae'r deddf newydd yn dod i rym ar Mawrth 31ain, 2023. Mae hon yn ddeddf newydd ac i'w croesawu. Er hyn, mae angen pwyllo cyn dod at unrhyw benderfyniad sut bydd awdurdodau harbwr ac awdurdodau lleol yn ymateb i ddigwyddiadau sydd yn ymwneud a chychod pleser. Mae yn allweddol bwysig bod swyddogion yn cael yr amser i astudio'r ddeddf a rhoddwyd ger bron y Llywodraeth yn ddiweddar ac yn cael yr amser i drafod oblygiadau'r ddeddf ymhellach gyda chyfreithwyr ac uwch swyddogion. Mae gen hyn oblygiadau i holl ddefnyddwyr yr Hafan/Harbwr Pwllheli.

Mae y linc yma yn rhoi fwy o wybodaeth ar y ddeddf newydd -
https://www.gov.uk/government/news/reckless-jet-skiers-to-face-prison-and-unlimited-fines-thanks-to-law-change


***Cynllun Strategol –*** Fel adroddwyd un o'r prif blaenoriaeth yw edrych ar cynllun strategol 'masterplan' ar gyfer ardal Harbwr a Glandon Pwllheli. Ni chafwyd unrhyw cais am y gwaith yn y rownd gyntaf, ond dilyn adolygiad y briff rydym wedi cytuno ar BlueSea Consulting cymryd y gwaith ymlaen. Mae'r trafodaethau cynnar wedi cymryd lle, a fydd y cwmni yn gwahodd nifer o rhanddeiliaid i rhoi mewnbwn i'r cynllun strategol yn y dyfodol agos.

| Morwrol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DG51-HAFAN PWLLHELI | | 01/04/2022 hyd at 31/03/2023 | | | |
| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT A RHAGWELIR HYD AT 31/03/2023 | GOR (TAN) |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 367,060 | 320,314 | (46,746) |
| | | | | | |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 472,360 | 626,804 | 154,444 |
| | | | | | |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 10,220 | 8,417 | (1,803) |
| | | | | | |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 156,920 | 106,544 | (50,376) |
| | | | | | |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (1,600,450) | (1,692,268) | (91,818) |
| | | | | | |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | (593,890) | (630,189) | (36,299) |


| Harbwr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DG52 - HARBWR PWLLHELI | | 01/04/2021 hyd at 31/03/2022 | | | |
| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT A RHAGWELIR HYD AT 31/03/2023 | GOR (TAN) |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 31,190 | 17,737 | (13,453) |
| | | | | | |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 12,880 | 12,354 | (526) |
| | | | | | |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 660 | 0 | (660) |
| | | | | | |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 12,990 | 75 | (12,915) |
| | | | | | |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (33,280) | (25,607) | 7,673 |
| | | | | | |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | 24,440 | 4,559 | (19,881) |

**Ystadegau Blynyddol *Hafan Pwllheli* - i Mawrth 2023**


**Annual Statistics for *Hafan Pwllheli* - to March 2023**





Nifer o gychod ymwelwyr mewn blwyddyn - No. of visiting vessels per year






Nifer o gychod ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa - No. of vessels on the Expressions of Interest







## Preswyl yng Ngwynedd/Residing In Gwynedd








**Ystadegau Blynyddol *Harbwr Pwllheli* - i Mawrth 2023**


**Annual Statistics for *Pwllheli Harbour* - to March 2023**








**Herio Perfformiad Hafan a Harbwr Pwllheli /
Performance Management Hafan & Pwllheli Harbour 2022**




Client
YGC
Location
PWLLHELI MARINA
Title
BATHYMETRIC SURVEY